

## HOWELL, JENKIN (1836 - 1902), argraffydd, llenor, a cherddor

**Enw:** Jenkin Howell  
**Dyddiad geni:** 1836  
**Dyddiad marw:** 1902  
**Rhiant:** Gwen Howell  
**Rhiant:** John Howell  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** argraffydd, llenor, a cherddor  
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Argraffu a Chyhoeddi  
**Awdur:** Watkin William Price

mab John (bu farw 1841) a Gwen Howell, Torfoel, Penderyn, Brycheiniog. Ychydig addysg a gafodd, gan ei brentisio i grydd yn 8 oed. Bum mlynedd wedyn aeth i weithio ym Mhont-Nedd-Fechan. Pan ond ychydig dros 14 oed, yr oedd ym Merthyr Tydfil ymysg beirdd, cerddorion ac eisteddfodwyr; oddi yno aeth i Aberdâr, lle y mynychai ysgolion nos a gedwid yn Ysgol y Comin gan John Anthony a **Dan Isaac Davies**. Rhoes ei waith fel crydd i fyny ac o 1854 hyd 1861 yr oedd yn llifiwr coed gyda'i frawd-ying-nghyfraith. Ond ar anogaeth ei weinidog, y **Dr. Thomas Price**, dysgodd grefft argraffu, ac agorodd ei swyddfa ei hunan yn 1867. Trwy ei gyfraniadau mynych i gyfnodolion, enillodd gryn sylw yng Nghymru 'n gyffredinol - cyhoeddid llawer o'i farddoniaeth yn *Seren Gomer*, *Yr Ymfynydd*, a'r *Geninen*. Argraffodd lawer o lyfrau Cymraeg yn ei wasg, heblaw'r newyddiadur *Y Gweithiwr Cymreig* yr oedd yn berchennog ac yn olygydd iddo. Yr oedd yn awdurdod ar lèn gwerin a thafodiaith dwyrain Morgannwg, a rhannodd y wobr gyda **T. C. Evans** ('Cadrawd') am draethawd ar lèn gwerin Morgannwg, yn eisteddfod genedlaethol Pontypridd, 1893; ddwy flynedd cyn ei farw dechreuodd gyfres o ysgrifau ar Ddyffryn Cynon yn *Y Geninen*. Bu farw 14 Mehefin 1902; claddwyd ym Mhenderyn.

### Awdur

**Watkin William Price**, (1873 - 1967)

### Ffynonellau

*Y Geninen*, 1903, 223-7; 1904, 15, 252

David Davies, *Hanes Plwyf Penderyn* (AberdÂr 1905, 1924) (ail arg.), 1924, 128-33

*Yr Hauwr misolyn Undeb Bedyddwyr Cymru at wasanaeth yr Ysgol Sabbathol*, Ionawr 1894

Ben Morus, *Enwogion AberdÂr* (1910), 1910

*The Weekly Mail*, 21 Mehefin 1902

*Y Cymmrodor*, xxiv

Archifau LIGC: NLW MS 1149C

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733341](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Yfrannu

Arddull APA

x

Price, W. W., (1953). HOWELL, JENKIN (1836 - 1902), argraffydd, llenor, a cherddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HOWE-JEN-1836>

Yfrannu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government